



Amcan Llesiant 6

Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Dyma ein hymrwymiadau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Yr Economi Wybodaeth ac Arloesedd		
Byddwn yn ymgysylltu'n rhanbarthol drwy rolau'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol a'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol. <i>(Cam gweithredu rhif 12566)</i>	✓	Ymgysylltodd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol â thros 70 o fusnesau pan oedd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2017/18 yn cael ei baratoi, a gyhoeddwyd ar 31.7.2017. Yn ystod y flwyddyn roeddem hefyd wedi ymgysylltu â 350 o fusnesau mewn perthynas â'r Cynllun ac mae'r Grŵp rhanbarthol wedi cefnogi 6 o brosiectau a ariennir gan yr UE. Roedd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol hefyd wedi ymgysylltu â grwpiau clwstwr y sector i gael adborth/adolygu'r camau yn y Cynllun ac i adolygu'r blaenoriaethau a nodi unrhyw sgiliau newydd sydd eu hangen i gyflawni prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar arian allanol er mwyn gwireddu potensial economaidd. <i>(Cam gweithredu rhif 12567)</i>	✓	Hyd yn hyn mae £22m wedi cael ei sicrhau gan raglenni Ewropeaidd er mwyn darparu nifer o fentrau gan gynnwys mentrau cyflogadwyedd megis Cymunedau am Waith a Gweithffyrdd+; mentrau wedi'u targedau at bobl ifanc mewn perygl o fynd yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant); ailddatblygu Pentywyn yn ogystal â mentrau a gynlluniwyd i gynyddu twristiaeth mewn partneriaeth â phartneriaid yn Iwerddon ac ar draws Gorllewin Cymru, fel rhan o'r fenter Llwybrau Celtaidd. Mae'r Awdurdod yn parhau i gefnogi cymunedau i gyrchu cyllid drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig ac i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael drwy raglenni'r UE, yn fewnol ac yn allanol, gyda cheisiadau cyllid pellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ar gyfer y Sir Gyfan yn unol â blaenoriaethau strategol allweddol. <i>(Cam gweithredu rhif 12568)</i>	✓	Ymgynghorwyd ynghylch Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2017 ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru gyda darparwyr y diwydiant a darparwyr hyfforddiant, a helpodd hyn i ddatblygu Cynllun 2017/18. Cyflwynwyd y Cynllun i Lywodraeth Cymru, a roddodd adborth cadarnhaol, a chafodd ei lansio gan y Gweinidog, Julie James, ar 5ed Hydref 2017. Mae'r gwaith ar gyfer Cynllun 2018/19 wedi dechrau eisoes.
Byddwn yn gweithio gydag ysgolion yn y Sir i gynyddu ymwybyddiaeth o'r opsiynau cyflogaeth a hyfforddiant fydd yn arwain at gyflogaeth yn y Sir (bydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn gweithio gydag ERW, Addysg, Diwydiant, Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i wella ymwybyddiaeth). <i>(Cam gweithredu rhif 12569)</i>	✓	Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd cyflwyniadau i grwpiau rhanbarthol o benaethiaid ac yna unigolion am gael deall anghenion ysgolion penodol. Mae'r cyfranogiad hwn wedi llywio'r Cynllun Sgiliau. Rydym hefyd wedi gweithio gydag ysgolion uwchradd i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sy'n ymwneud â phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac ERW i nodi ffyrdd newydd o weithio gydag ysgolion. Mae prosiectau pilot wedi cael eu dynodi ar gyfer

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>blynyddoedd 9 ac 11 er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r sgiliau bydd eu hangen ar y cyflogwyr sydd ynghlwm wrth brosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Datblygwyd prosiectau arbrofol gydag ysgolion ar y galluoedd digidol, creadigol ac iechyd sydd eu hangen ar gyfer y 3 phrosiect yn Sir Gaerfyrddin.</p>
<p>Byddwn yn gweithio gyda phrosiectau'r Fargen Ddinesig i ddeall y gofynion sgiliau o fewn pob sector a datblygu cyrsiau/cyfleoedd hyfforddi newydd mewn partneriaeth â sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn y rhanbarth. <i>(Cam gweithredu rhif 12570)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi cyfarfod â holl brosiectau'r Fargen Ddinesig i drafod gofynion hyfforddiant pob prosiect a sut gellir datblygu hyn fel rhan o'r Fargen Ddinesig. O'r cyfarfodydd hyn bu i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol gwblhau model busnes 5 achos a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer darparu'r sgiliau allweddol newydd sydd eu hangen yn y rhanbarth ac sy'n ofynnol gan ddiwydiant, ysgolion a chyfleoedd dysgu i oedolion. Cafodd yr achos busnes drafft ar gyfer prosiect sgiliau a thalentau y Fargen Ddinesig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddiwedd mis Hydref, a chafwyd sylwadau cychwynnol a gwnaed gwaith i ychwanegu'r wybodaeth ac yna ailgyflwynwyd yr achosion busnes i swyddogion y Llywodraeth. Hyd yn hyn mae diwygiadau'r cynllun achos busnes drafft wedi cael eu diweddarau a'u cyflwyno i'r swyddfa ranbarthol i'w cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen o ran casglu data o brosiectau a mewnbynnu'r wybodaeth hon i gynllun ar gyfer datblygu sgiliau yn y rhanbarth.</p>
<p>Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi entrepreneuriaeth yn y Sir drwy ddarparu gweithgareddau megis Bwrsariaeth y Goleudy, Meithrin Busnesau a Chronfa Cychwyn Busnesau. <i>(Cam gweithredu rhif 12571)</i></p>	✓	<p>Lansiwyd Bwrsariaeth y Goleudy ddechrau'r gwanwyn 2018. Mae manau meithrin busnesau Y Goleudy yn mynd rhagddo ac mae 5 ymgeisydd yn cael eu hystyried. Mae'r cronfeydd cychwyn busnes wedi cael eu cymeradwyo a'r bwriad yw eu lansio ddiwedd y gwanwyn.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi Twf y Trydydd Sector ac yn darparu'r Hwb Gwybodaeth. <i>(Cam gweithredu rhif 12572)</i></p>	✓	<p>Yn ystod y flwyddyn mae tîm canoli gwariant newydd y Trydydd Sector wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu Panel Her a Chylch Gorchwyl cytunedig • Sefydlu cronfa ddata ganolog • Cyfathrebu â'r Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwyr y Gyllideb i gynyddu ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth newydd • Cynnal sesiynau briffio ar gyfer Rheolwyr y Gyllideb a chrosawu adborth ar y broses • Cyflwyno'r gwasanaeth newydd i gyfarfod y Bwrdd Caffael • Ymgysylltu â chydweithwyr yn y tîm caffael i alinio'r swyddogaeth newydd gyda gwelliannau i reoli contractau • Defnyddio Atamis - meddalwedd Dadansoddi Gwariant a Rheoli Contractau • Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu • Datblygu proses gofrestru Gwariant Trydydd Sector ar-lein <p>Rydym hefyd wedi llunio rhestr gynhwysfawr o gyflenwyr Gwariant y Trydydd Sector, a fydd yn ei</p>

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		gwneud yn haws i reolwyr y gyllideb nodi sefydliadau'r trydydd sector. Bydd y Gweithgor yn parhau i gwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolaeth o Archwilio, Caffael, Cyllid a Datblygu Economaidd. Mae rhestr Cyflenwyr ID Gwariant y Trydydd Sector (Canolfan Wybodaeth) wedi'i chwblhau a bydd ar gael i Reolwyr y Gyllideb y gofynnwyd iddynt gofrestru holl wariant y Trydydd Sector ar gyfer 2018/19.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu Gweithgarwch Digidol er mwyn gwella mynediad i wasanaeth allweddol a hybu perfformiad economaidd. <i>(Cam gweithredu rhif 12573)</i>	✓	Mae contractwyr lleol Sir Gaerfyrddin, Antur Teifi, wedi llwyddo i sicrhau'r contract i osod a darparu rhwydwaith Wi-fi Trefi Gwledig Strategol ar draws Sir Gaerfyrddin. Pan fydd y rhaglen osod wedi'i chwblhau, bydd pecyn cymorth technegol a datblygu llawn ar waith wedyn am y cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Chwefror 2020. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys lleoli dau brentis i weithio gyda Chynghorau Tref a busnesau a'u helpu i ddatblygu a mwyhau manteision economaidd a gwella profiad ymwelwyr, o ran defnyddio cysylltedd digidol ar y stryd fawr.
Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad digwyddiadau drwy ddatblygu gweithgareddau megis y Cylch Rhwydwaith Digwyddiadau ac yn defnyddio cyfuniad o gyllid. <i>(Cam gweithredu rhif 12575)</i>	✓	Gan ddefnyddio adnoddau a enillwyd drwy gais Leader y Rhaglen Datblygu Gwledig llwyddiannus, mae dros 180 o drefnwyr digwyddiadau wedi ymuno â chylch rhwydwaith digwyddiadau Sir Gaerfyrddin gyda 49 yn actif ar y dudalen Facebook gaeedig. Mae gwaith hyrwyddo pellach wedi cael ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o'r wybodaeth sydd ar gael nawr ar-lein ar ffurf astudiaethau achos a thempledi ac mae dal llawer o gwmpas o ran cynyddu defnydd, yn enwedig o ran cynllunio hyrwyddol a nawdd Dewiswyd Llanymddyfri, Caerfyrddin a Chastellnewydd Emlyn fel "trefi peilot" er mwyn archwilio datblygiad a thwf digwyddiadau gyda busnesau lleol. Trefnwyd digwyddiadau grŵp ffocws ym mhob un o'r trefi, gan ddwyn ynghyd fusnesau, arweinwyr grwpiau cymunedol, a threfnwyr digwyddiadau.
B - Trawsnewidiadau – cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030		
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi creu swyddi . <i>(Cam gweithredu rhif 12576)</i>	✓	Roedd 352 o swyddi wedi cael eu creu yn ystod y flwyddyn, sy'n rhagori ar y targed blynyddol. Roedd y rhain drwy Ganolfan Thomas Parry, Stryd Cyfleoedd, y Biwro, Cymorth Busnes, Parth Twf Cross Hands (Gorllewin Cross Hands), Llynnoedd Delta a Phrosiectau Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi swyddi mewn lleoliad newydd. <i>(Cam gweithredu rhif 12580)</i>	✓	Darparwyd 195 o swyddi o ganlyniad i brosiect Stryd Cyfleoedd yng Nghanol Tref Llanelli a Pharth Twf Cross Hands. Mae'r ffigur hwn yn rhagori ar y targed blynyddol.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r	x	Mae 250.5 o bobl wedi cael swyddi drwy brosiectau cymorth gan gynnwys gweithffyrdd+, menter Cymunedau yn Gyntaf, y Biwro Cymunedol ac Un Sir Gâr yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd oedi

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi nifer y bobl a osodir mewn swyddi. <i>(Cam gweithredu rhif 12581)</i>		cyn cychwyn ar y rhaglen Gweithffyrdd+, ni chyrhaeddwyd y ffigur targed ac felly mae'r targedau wedi cael eu hailbroffilio ar draws cyfnod estynedig hyd at 2022.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi nifer y bobl a osodir mewn hyfforddiant. <i>(Cam gweithredu rhif 12582)</i>	✓	Rhagorwyd yn sylweddol ar y targed blynyddol o 1187 drwy gyfrwng gwaith y Biwro Cymunedol, Cymunedau yn Gyntaf/Cymunedau am Waith/ESGYN, Gweithffyrdd, Un Sir Gâr, a phrosiectau Stryd Cyfleoedd. Mae cyfanswm o 3306 o unigolion wedi cael hyfforddiant eleni
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi nifer y bobl y rhoddwyd cymorth iddynt i wirfoddoli. <i>(Cam gweithredu rhif 12583)</i>	✓	Mae 1141 o unigolion wedi cael cymorth i wirfoddoli hyd yn hyn drwy raglenni Gweithffyrdd+, Un Sir Gâr, Biwro Cymunedol a Chymunedau yn Gyntaf / Cymunedau am Waith / Esgyn.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi arwynebedd llawr swyddfa/busnes ychwanegol (troedfedd sgwâr) a grëir. <i>(Cam gweithredu rhif 12584)</i>	✓	Mae 83,680 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr wedi ei greu / gwella drwy Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, prosiect Stryd Cyfleoedd a phrosiect Parth Twf Cross Hands. Yn ogystal mae nifer o brosiectau ar waith drwy Gronfa Datblygu Eiddo Trawsnewid a Chronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, a fydd yn rhoi bod i arwynebedd llawr ychwanegol ddechrau 2018/19
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi faint o dir (hectarau) a ddatblygir. <i>(Cam gweithredu rhif 12585)</i>	✓	Mae 8.4 hectar o dir wedi cael ei ddatblygu neu ei wella drwy brosiect Llynnoedd Delta, Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, Stryd Cyfleoedd a Pharth Twf Cross Hands. Yn ogystal mae gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o brosiectau gan gynnwys Pontrillas Doc y Gogledd, lle bydd rhagor o dir yn cael ei ddatblygu ddechrau 18/19.
Byddwn yn datblygu ac yn darparu ar draws y tri o Dimau Ardal Trawsnewid (Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, Rhydaman a Pharth Twf Cross Hands, Llanelli a'r Llain Arfordirol) a'r Tîm Menter a Sgiliau, fentrau a phrosiectau i gefnogi lefel y Buddsoddiad gan y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd. <i>(Cam gweithredu rhif 12586)</i>	✓	Mae £16.7 o fuddsoddiad o'r Sector Preifat / cyllid allanol wedi'i sicrhau eleni drwy: Biwro Cymunedol (£5.9m), Lôn Jackson (£128k), Gwlyptiroedd Caerfyrddin (£128k) a Chronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin (£1.15m), TPDF (£365k), Parth Twf Cross Hands (£5.967m) a Phrosiect Denu Twristiaid Pentywyn (£3m).
Byddwn yn cyflawni'r cynllun gweithredu cychwynnol - Proses gynllunio; cytundebau Achos Busnes; Datblygu llwybrau; Cyrsiau Hyfforddi ar gyfer y prosiect Llesiant a Gwyddorau Bywyd <i>(Cam gweithredu rhif 12380)</i>	✓	Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn o gynnydd amlwg ar gyfer Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli , a chyrhaeddwyd cerrig milltir allweddol ym mhob agwedd ar y prosiect. Cafodd ymarfer Ymgynghori Cyn Gwneud Cais ei weithredu'n llwyddiannus ym mis Chwefror, a chofrestrwyd cais cynllunio amlinellol ar 15 Mawrth (cyfeirnod S/36948). Y nod yw sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Awst/Medi 2018. Mae Cynllun Busnes 5 Achos wedi'i gyflwyno i Lywodraethau'r DU a Chymru i dynnu i lawr £40m o arian y Fargen Ddinesig. Cyfeiriwyd cryn dipyn o adnoddau ac ymdrech at ymarferiad caffael 12 mis i

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>nodi partner datblygu sector preifat, yn cynnwys galwad i gystadleuaeth (hysbysiad OJEU) a sesiynau dialog gydag ymgeiswyr. Y gobaith yw cyhoeddi'r partner a ffeirir yn ffurfiol ym mis Mai. Mae ein grwpiau gwaith prif ffrwd, cynllunio busnes wedi trefnu gwasanaethau i'w cyflawni yn y Pentref, gan arwain at Strategaeth Cyflawni Clinigol a Phapur Manyleb am y Ganolfan Lesiant. Mae'r rhain yn destun prosesau llywodraethu perthnasol er mwyn eu cymeradwyo. Yn olaf, mae gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu wedi gwella ymwybyddiaeth rhanddeiliaid a dealltwriaeth o'r cysyniad Pentref. Daeth 234 o drigolion, disgyblion a sefydliadau/busnesau lleol i arddangosfa gyhoeddus a oedd yn arddangos cynigion ar gyfer y pentref.</p>
<p>Byddwn yn datblygu ac yn darparu Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth ar draws y sir ac yn darparu camau gweithredu sy'n defnyddio cyfuniad o gyllid er mwyn cefnogi hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel lle deniadol a safonol i ymweld ag ef ac aros ynddo, ac fel lle hyfyw yn fasnachol i fuddsoddi ynddo fel rhan o ymgyrchoedd rhanbarthol a chenedlaethol. <i>(Cam gweithredu rhif 12577)</i></p>	<p>✓</p>	<p>Mae'r gwaith o hyrwyddo Cymru fel Gwlad i Ymweld â hi yn cael ei gydlynu gan Croeso Cymru, sy'n rhan o is-adran o fewn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i'w cefnogi i ddarparu ymgyrchoedd Blwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr drwy arwain ar gyfres o gamau a gyllid drwy'r Gronfa Twristiaeth Ranbarthol ar ran partneriaeth De-orllewin Cymru. Roedd camau'n cynnwys hyrwyddo amserlenni teithiau grŵp â thema gan gynnwys trefnu a rheoli'r gwaith o fynd i Arddangosfa Teithio a Thwristiaeth Prydain yn yr NEC fel rhan o bafiliwn Croeso Cymru. Cafodd 28 o erthyglau mawr ar Sir Gaerfyrddin eu cynhyrchu gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn y cyfryngau, gan amrywio o: Cylchgrawn Olive: Cylchrediad 32,497 Cylchgrawn 'Fabulous' <i>Sun on Sunday</i>: Cylchrediad 1.4 miliwn Sunday Mirror: Cylchrediad 488,609 Western Mail: Cylchrediad 13,419 Mae Cysylltiadau Cyhoeddus hefyd wedi'i ddefnyddio fel dull hyrwyddo, gan ein bod yn gallu cyrraedd pobl o bob rhan o'r DU.</p>
<p>Byddwn yn datblygu ansawdd, nifer a gwerth economaidd digwyddiadau a gwyliau gan ddefnyddio Leader, Cynllun Cydweithredu Iwerddon Cymru, Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol a ffrydiau ariannu eraill. <i>(Cam gweithredu rhif 12579)</i></p>	<p>✓</p>	<p>Bu swyddogion mewn sesiwn 'bwrw golwg ar y gorwel' gydag uned digwyddiadau mawr y Llywodraeth ym mis Ionawr, gan gasglu gwybodaeth am feysydd o ddi-ddordeb posibl a'r posibilïadau o gynnal digwyddiadau yn y dyfodol, yn ogystal â manteisio ar gyfle i esbonio'r cyfleusterau a'r ardaloedd gall y Cyngor eu cynnig nawr ac yn y dyfodol. Croesawyd bod y Cyngor bellach yn cynnig cynllun ariannol i gefnogi digwyddiadau yn seiliedig ar feini prawf llym. Aeth cynllun cydweithredu Iwerddon Cymru yn fyw ar 1 Ionawr. Cyfarfu partneriaid o'r ddwy wlad ar gyfer gweithdy dau ddiwrnod ym mis Chwefror, gan fod syniadau'r dyfodol wedi'u cadarnhau a bod gwybodaeth am bob maes wedi cael set ddiwygiedig o feini prawf wedi'u seilio ar y "gwersi a ddysgwyd".</p>

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
C - Y Fargen Ddinesig		
Byddwn yn cyflawni Cam 3 cynllun y prosiect ar gyfer y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd. <i>(Cam gweithredu rhif 12365)</i>	✓	Yn dilyn cyflwyno'r 5 o gynlluniau achos busnes i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mae Cam 3 wedi'i ddirwyn i ben. Wrth symud ymlaen, ystyrir camau newydd o dan 'cyfnod 4', gydag is-gamau cysylltiedig.
Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad a gweithrediad cynnig Bargen Ddinesig Bae Abertawe. <i>(Cam gweithredu rhif 12587)</i>	✓	Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn o gynnydd amlwg ar gyfer Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli , a chyrrhaeddwyd cerrig milltir allweddol ym mhob agwedd ar y prosiect. Cafodd ymarfer Ymgynghori Cyn Gwneud Cais ei weithredu'n llwyddiannus ym mis Chwefror, a chofrestrwyd cais cynllunio amlinellol ar 15 Mawrth (cyfeirnod S/36948). Mae Cynllun Busnes 5 Achos wedi'i gyflwyno i Lywodraethau'r DU a Chymru i dynnu i lawr £40m o arian y Fargen Ddinesig. Cyfeiriwyd cryn dipyn o adnoddau ac ymdrech at ymarferiad caffael 12 mis i nodi partner datblygu sector preifat, yn cynnwys galwad i gystadleuaeth (hysbysiad OJEU) a sesiynau dialog gydag ymgeiswyr. Mae ein grwpiau gwaith prif ffrwd, cynllunio busnes wedi trefnu gwasanaethau i'w cyflawni yn y Pentref, gan arwain at Strategaeth Cyflawni Clinigol a Phapur Manyleb am y Ganolfan Lesiant. Mae'r rhain yn destun prosesau llywodraethu perthnasol er mwyn eu cymeradwyo. Yn olaf, mae gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu wedi gwella ymwybyddiaeth rhanddeiliaid a dealltwriaeth o'r cysyniad Pentref. Daeth 234 o drigolion, disgyblion a sefydliadau/busnesau lleol i arddangosfa gyhoeddus a oedd yn arddangos cynigion ar gyfer y pentref.
Byddwn yn sefydlu trefniadau llywodraethu priodol a strwythurau cefnogi i sicrhau bod y Fargen Ddinesig yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus. <i>(Cam gweithredu rhif 12588)</i>	✓	Mae camau diwethaf Cytundeb y Cyd-bwyllgor yn nwylo timau cyfreithiol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi sefydlu strwythurau a phrosesau llywodraethu addas i'r diben i sicrhau llwyddiant Bargen Ddinesig Bae Abertawe
Byddwn yn cefnogi datblygiad achos busnes 5 achos ar gyfer pob un o'r 11 o brosiectau. <i>(Cam gweithredu rhif 12589)</i>	✓	Mae 8 o'r 11 prosiect Bargen Ddinesig yn cael eu hasesu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w cymeradwyo.
Byddwn yn sefydlu mecanweithiau ymgysylltu â busnes i sicrhau bod y Fargen Ddinesig yn creu cymaint o fudd â phosibl yn lleol ac yn rhanbarthol. <i>(Cam gweithredu rhif 12590)</i>	✓	Rydym wedi recriwtio Swyddog Ymgysylltu Busnes ar gyfer y Fargen Ddinesig a bydd y swyddog hwn yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu busnes
Byddwn yn anelu at ddatblygu pob un o 11 o brosiectau'r Fargen Ddinesig. <i>(Cam gweithredu rhif 12591)</i>	✓	Mae'r Swyddfa Ranbarthol yn cydweithio'n agos gydag arweinwyr yr 11 prosiect i sicrhau datblygiad achosion Busnes.
Byddwn yn anelu at gynnal 4 o ddigwyddiadau ymgysylltu busnes y Fargen Ddinesig. <i>(Cam gweithredu rhif 12592)</i>	✓	Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Penodwyd Swyddog Cyfathrebu a Marchnata ar gyfer y Fargen Ddinesig. Hefyd mae swyddog ymgysylltu â busnesau wedi'i recriwtio hefyd.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
D – Mesurau Perfformiad Cyffredinol		
Byddwn yn anelu at greu 282 yn fwy o swyddi. <i>(EconD/001)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 253.5 / Targed 2017/18 - 282)</i>	✓	Cafodd 352.5 o swyddi eu creu â chymorth adfywio yn ystod 2017/18, a oedd yn uwch na'r targed. Crëwyd y rhain gyda chymorth Canolfan Parry Thomas, Cymorth Busnes, Bwrsariaeth y Goleudy, Stryd Cyfleoedd, y Biwro, Parth Twf Cross Hands, Llynoedd Delta, a Phrosiectau Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin.
Ein nod fydd darparu ar gyfer 49 o swyddi. <i>(EconD/002)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 28 / Targed 2017/18 - 49)</i>	✓	Darparwyd 195 o swyddi yn ystod 2017/18 o ganlyniad i Brosiect Stryd Cyfleoedd yng Nghanol Tref Llanelli a Phrosiect Twf Cross Hands yng Ngorllewin Cross Hands.
Byddwn yn anelu at gael 280 o bobl i gael swyddi. <i>(EconD/003)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 344 / Targed 2017/18 - 280)</i>	✘	Mae 250.5 o unigolion wedi cael swyddi â chymorth adfywio drwy raglenni Gweithffyrdd, Un Sir Gâr, Biwro Cymunedol a Chymunedau yn Gyntaf / Esgyn / Cymunedau am Waith. Mae hyn yn is na'r targed disgwylidig gan y bu oedi o ran rhaglen gweithffyrdd+, oherwydd mae targedau o'r fath wedi cael eu hailbroffilio dros gyfnod estynedig hyd at 2022
Byddwn yn anelu at gael 1,187 o bobl i gael hyfforddiant. <i>(EconD/004)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 3,128 / Targed 2017/18 - 1,187)</i>	✓	Cafwyd hyd i leoedd hyfforddiant i 3,306 o bobl yn ystod 2017/18 drwy waith y Biwro Cymunedol, Cymunedau yn Gyntaf / Esgyn / Cymunedau am Waith+, Un Sir Gâr a Phrosiectau Stryd Cyfleoedd. Mae hyn yn rhagori tipyn ar ein targed Blynyddol o 1,187.
Byddwn yn anelu at gael 1,132 o bobl i wirfoddoli. <i>(EconD/005)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 1,598 / Targed 2017/18 - 1,132)</i>	✓	Cafodd 1141 o unigolion eu helpu i wirfoddoli yn ystod 2017/18 trwy raglenni Gweithffyrdd+, Un Sir Gâr, y Biwro a Chymunedau yn Gyntaf / Esgyn / Cymunedau am Waith
Byddwn yn anelu at greu 40,069 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr <i>(EconD/006)</i> <i>(Targed 2017–18 - 40,069 troedfedd sgwâr)</i>	✓	83,680 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr wedi ei greu / gwella yn ystod 2017/18 drwy brosiectau Stryd Cyfleoedd a Pharth Twf Cross Hands, sy'n rhagori ar ein targed.
Byddwn yn anelu at ddatblygu 8.4 hectar o dir <i>(EconD/007)</i> <i>(Targed 2017/18 - 8.4 hectar)</i>	✓	8.4 hectar o dir wedi cael ei ddatblygu neu ei wella yn ystod 2017/18 drwy brosiectau Llynnoedd Delta, Opportunity 1 st , a Cross Hands ynghyd â Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a Phrosiectau Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewid Sir Gaerfyrddin.
Lefel Buddsoddiad y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd £11,303,361 <i>(EconD/008)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – £23,551,839 / Targed 2017/18 - £11,303,361)</i>	✓	Cafodd £16,721,475 o Fuddsoddiad Sector Preifat ei sicrhau yn ystod 2017/18, a oedd yn uwch o dipyn na'r targed. Gwnaed hyn drwy'r Biwro Cymunedol, Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, TCPDF, Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, Lôn Jackson, Parth Twf Cross Hands a'r Prosiect Gwlyptiroedd.
Byddwn yn sicrhau bod canran uchel o anfonebau diddadi yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i helpu llif arian busnesau lleol. <i>(CFH/006)</i> <i>Canlyniad 2016/17 - 94.3% /Targed 2017/18 - 93.5%)</i>	✘	Talwyd 92.8% o'r anfonebau o fewn 30 diwrnod yn ystod 2017/18. Nid yw hyn yn cyrraedd y targed ac mae'n llai na'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd yr holl feysydd perthnasol sydd islaw'r targed a bydd swyddogion yn ymchwilio i'r materion ac yn mynd i'r afael â nhw.
Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal archwiliadau safonau masnachu ar gyfer yr holl fusnesau risg uchel <i>(PPN/001i)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 -100%) / Targed 2017/18 - 100%)</i>	✓	Cafodd pob un o'r 150 o Fusnesau Risg Uchel Safonau Masnach eu harolygu yn ystod 2017/18 - 100%

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal archwiliadau iechyd anifeiliaid ar gyfer yr holl fusnesau risg uchel <i>(PPN/001iii)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 -100%)</i> <i>/ Targed 2017/18 - 100%)</i></p>	<p>x</p>	<p>Cafodd 92% - 158 o'r 172 o fusnesau iechyd anifeiliaid risg uchel eu harolygu yn ystod 2017/18. Rydym wedi gweld cynnydd mewn ymchwiliadau i fridwyr cŵn sydd heb drwydded ac erlyniadau yn eu herbyn. Mae hwn yn waith adweithiol o flaenoriaeth uchel, ac ni allai'r cynnydd fod wedi cael ei ragweld ar ddechrau'r flwyddyn. Yn anffodus, mae ailflaenoriaethu amser swyddogion er mwyn ceisio datrys yr archwiliadau hyn wedi golygu ein bod ychydig yn brin o'r 100%, mae'r safleoedd sy'n weddill yn cael eu harolygu yn ystod mis Ebrill 2018.</p>